**LGH-03-01 (p.7)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**BLAENRAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU PWNC ERAILL**

**Mater**

1. Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar flaenraglenni gwaith strategol y pwyllgorau pwnc eraill hyd fis Rhagfyr 2002.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried blaenraglenni gwaith y pwyllgorau pwnc eraill, sydd ynghlwm wrth y papur hwn.

**Cefndir**

3. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn datgan y dylai pob pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith barhaus sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf, ac ymgynghori â'r pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad cyn hysbysu'r cyfarfod llawn. Mae'r flaenraglen waith yn ddogfen strategol sy'n darparu arolwg o flaenoriaethau bras y Pwyllgor ar gyfer y 18 i 24 mis nesaf, a ategir gan raglen waith fanylach.
4. Caiff blaenraglenni gwaith strategol eu cynnwys fel a ganlyn:

- Atodiad 1: Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
- Atodiad 2: Pwyllgor Diwylliant
- Atodiad 3: Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Atodiad 4: Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

5. Bydd y rhaglenni gwaith drafft ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu dosbarthu pan fyddant ar gael.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** **Chwefror 2001**